BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

# Lles economaidd

Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bridgend Public Services Board

'Mae costau byw yn codi ond nid yw fy nghyflog'

- Mae cyflogau gweithwyr llawn amser wedi cynyddu ers 2018 ond maent yn dal yn is na chyfartaledd Cymru.
- Yn gyffredinol mae dynion yn dal i ennill mwy na merched.
- Mae mwy o ferched yn gweithio'n rhan amser na dynion.
- Mae llai o ferched na dynion yn gweithio, yn enwedig y rhai rhwng 35 a 49 oed.
- Mae nifer uwch o ferched mewn galwedigaethau proffesiynol sydd angen gradd neu gymhwyster cyfatebol.
- Mae gan nifer cynyddol o bobl mewn gwaith incwm islaw'r llinell dlodi.
- Mae cynnydd mewn biliau cartref yn bryder i lawer.
- Mae cymorth gan wasanaethau lleol ar fudd-daliadau a chyllid e.e. CAB, Hybiau Cymunedol yn cael ei werthfawrogi.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae cyflog byw yn cefnogi teuluoedd, unigolion a'r economi

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae swyddi diogel sy'n talu'n dda yn bwysig

- Mae nifer y bobl mewn gwaith yn cynyddu.
- Mae mwy o bobl yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol nag unrhyw swydd arall.
- Mae mwy o ferched yn gweithio yn y sector manwerthu, hamdden a gofal na dynion.
- Mae mwy o ddynion na merched yn hunangyflogedig.

Fe wnaethom ni ganfod

## Gall Gwybodaeth a Sgiliau gefnogi ein Lles Economaidd

- Mae dysgu a datblygu sgiliau yn bwysig er mwyn gallu cael swyddi da a bod yn hyderus.
- Mae lefel uwch o oedolion heb unrhyw gymwysterau yn yr ystod oedran 35 i 49.
- Mae cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn Colegau a thrwy brosiectau cyflogadwyedd lleol.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae angen mwy o gymorth i helpu pobl i gael gwaith

- Mae angen gwell cysylltiadau trafnidiaeth er mwyn gallu cyrraedd swyddi.
- Bydd gofal plant fforddiadwy yn helpu mwy o bobl i gael gwaith.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae pobl leol am gael mwy o gyfle cyfartal

- Mae cyfradd uwch o bobl anabl sy'n gallu gweithio ac sydd am weithio o'u cymharu â'r rhai sy'n gweithio mewn gwirionedd.
- Mae pobl ag anableddau dysgu eisiau mwy o gyfleoedd ar gyfer opsiynau cyflogaeth, gwirfoddoli ac addysg arloesol.
- Mae gofalwyr a phobl ifanc am gael cymorth i fanteisio ar gyfleoedd.

Fe wnaethom ni ganfod

## Mae trefi a busnesau ffyniannus yn bwysig i'n heconomi leol

- Mae'r ardal yn llwyddo i ddenu buddsoddiad gan ddefnyddio ei harddwch naturiol a'i hanes diwylliannol.
- Mae gan ardaloedd arfordirol ddyfroedd ymdrochi safon aur sy'n ddeniadol i dwristiaeth.
- Mae'r sector manwerthu yn lleihau a fydd yn effeithio ar yr economi leol.
- Bydd cefnogi busnesau lleol i adfer yn sgil Covid yn bwysig.
- Mae'r diwydiant adeiladu yn tyfu ond bydd angen iddo addasu a pharatoi ar gyfer anghenion carbon isel yn y dyfodol.

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CWM TAF PUBLIC SERVICES BOARD

Mae'r adroddiad asesu llawn i'w weld yn:
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Phen-y-Bont ar Ogwr

Pen-y-bont ar Ogwr Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bridgend Public Services Board